CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
RHONDDA CYNON TAF
COUNTY BOROUGH COUNCIL

GWŶS I GYFARFOD PWYLLGOR

C Hanagan
Cyfarwyddwr Materion Cyfathrebu a Phennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau Llywodraethol
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Y Pafiliynau Parc Hen Lofa'r Cambrian
Cwm Clydach, CF40 2XX

Dolen gyswllt: Emma Wilkins - Gwasanaethau Llywodraethol (01443 424110)

DYMA WŶS I CHI i gyfarfod o **GYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF** sydd i'w gynnal yn Siambr y Cyngor, Cwm Clydach, CF40 2XX**.** ar **DYDD MERCHER, 24AIN HYDREF, 2018** am **5.00 PM.**

AGENDA **Tudalennau**

1. DATGAN BUDDIANT

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau, yn unol â gofynion Cod Ymddygiad y Cyngor.

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agenda y mae eu buddiant yn ymwneud ag e a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant personol sy'n rhagfarnu, **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

2. CYHOEDDIADAU

3. COFNODION

Cadarnhau cofnodion o gyfarfod y Cyngor, a gynhaliwyd ar 19.09.18, yn rhai cywir

7 - 18

LLYWODRAETHU AGORED

4. DATGANIADAU

Yn unol â Rheol Dull Gweithredu 2 Cyfarfod Cyngor y Llywodraeth Agored, derbyn datganiadau gan Arweinydd y Cyngor a/neu Gynghorwyr sy'n Aelodau Portffolio o'r Cabinet.

5. CWESTIYNAU GAN Y CYNGHORWYR

a) Cwestiwn gan y Cynghorydd Margaret Griffiths i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg a Dysgu Gydol Oes – Y Cynghorydd J. Rosser:

"Fydd yr Aelod o'r Cabinet yn gwneud datganiad ynglŷn â chanlyniadau arholiadau yn RhCT eleni?"

b) Cwestiwn gan y Cynghorydd S. Belzak i Arweinydd y Cyngor, Y Cynghorydd A. Morgan:

"Ym mha ffordd y bydd y traffig ychwanegol ar y ffyrdd, sef y canlyniad tebygol yn sgîl y "Cynigion i wella addysg yn ardal Pontypridd", wedi'u cymeradwyo gan y Cabinet ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus ar 3 Hydref, yn cyd-fynd â Chynhadledd y Partïon (COP) 21 Cytundeb Hinsawdd Paris 2015 neu adroddiad y Panel Rhynglywodraethol ar Newid Hinsawdd (IPCC) wedi'i gyhoeddi ar 8 Hydref 2018"

c) Cwestiwn gan y Cynghorydd L. Walker i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Menter, Datblygu, a Thai - Y Cynghorydd R. Bevan:

"Oes modd cael y newyddion diweddaraf am y sefyllfa bresennol o ran YMCA Pontypridd a'r datblygiad arfaethedig gwerth £6 miliwn ym Mhontypridd"

d) Cwestiwn gan y Cynghorydd Larraine Jones i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Amgylchedd, Hamdden a Threftadaeth – Y Cynghorydd A. Crimmings:

"A wnewch chi ddatganiad am ddyfodol safle mwynder Nant-y-Gwyddon?"

e) Cwestiwn gan y Cynghorydd Wendy Lewis i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg a Dysgu Gydol Oes – Y Cynghorydd J. Rosser:

"A fydd yr Aelod o'r Cabinet yn gwneud datganiad ar fuddsoddiad Addysg?"

ADRODDIADAU'R SWYDDOGION

RHAGLEN WAITH Y CYNGOR - ER GWYBODAETH I AELODAU

6. ADOLYGU TREFNIADAU ETHOLIADOL GAN GOMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU

Trafod adroddiad ar y cyd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol a Chyfarwyddwr Materion Cyfathrebu a Phennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau Llywodraethol.

19 - 82

7. CYLLIDEB REFENIW Y CYNGOR – Y SETLIAD DROS DRO

Trafod adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen.

83 - 96

8. GOSTYNGIAD TRETH Y CYNGOR

Trafod adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen.

97 - 98

9. BLAENORIAETHAU BUDDSODDI'R CYNGOR

Trafod adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen.

99 - 108

10. PECYNNAU YMDDEOL YN GYNNAR O WIRFODD A DISWYDDO AR GYFER PRIF SWYDDOGION

Trafod Adroddiad Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol.

109 - 112

11. Y DIWEDDARAF AM Y RHYBUDD O GYNNIG – WARDEINIAID EIRA

Trafod adroddiad Cyfarwyddwr Materion Cyfathrebu a Phennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau Llywodraethol.

113 - 120

12. Y PWYLLGOR ARCHWILIO – PENODI IS-GADEIRYDD

Trafod adroddiad Cyfarwyddwr Materion Cyfathrebu a Phennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau Llywodraethol.

121 - 124

13. NEWID AELODAETH

Trafod adroddiad Cyfarwyddwr Materion Cyfathrebu a Phennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau Llywodraethol.

125 - 128

14. PENDERFYNIADAU BRYS O DAN SWYDDOGAETHAU GWEITHREDOL

Trafod adroddiad Cyfarwyddwr Materion Cyfathrebu a Phennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau Llywodraethol.

129 - 132

15. RHYBUDD O GYNNIG

a) Trafod Rhybudd o Gynnig sydd wedi'i gyflwyno yn enwau Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol P.Jarman, E.Stephens, L.Jones, G.Davies, S.Rees Owen, M.Weaver, K.Morgan, K.Williams, A.Cox, D.Macey, J.Davies, J.Cullwick, H.Fychan, E.Webster, A.Chapman, S.Evans a D.Grehan.

"Dylen ni i gyd gefnogi ein heconomi lleol a BBaCh. Mae'r busnesau yma'n cynrychioli'r rhan fwyaf o'r economi yma. Bydd y Cyngor yma yn llunio cofrestr cynnyrch bwyd mewn ymdrech i gefnogi ein cwmnïau cynhyrchu bwyd lleol yn well. Bydd y gofrestr yn rhestru'r holl gynhyrchwyr bwyd a diod lleol ym Mwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf gyda'r bwriad o annog a hyrwyddo cynnydd o ran marchnata a bwyta cynnyrch lleol, gan gefnogi'r economi lleol."

"Os bydd y Cyngor Llawn yn cymeradwyo'r cynnig yma, bydd y mater yn cael ei gyfeirio i'r Pwyllgor Craffu - Cyllid a Chyflawniad a fydd yn bwrw ymlaen â'r gwaith o sefydlu'r gofrestr."

b) Trafod y Rhybudd o Gynnig canlynol yn enwau'r Cynghorwyr W Treeby, J Harries, L.M. Adams, D.R. Bevan, H. Boggis, J. Bonetto, S. Bradwick, J. Brencher, A. Calvert, G. Caple, A. Crimmings, A. Davies-Jones, L. De Vet, J. Elliott, S. Evans, M. Fidler Jones, M. Forey, A. Fox, E. George, M. Griffiths, G. Holmes, G. Hopkins, G.W. Hughes, G. Jones, R. Lewis, W. Lewis, C. Leyshon, A. Morgan, S. Morgans, M.A. Norris, D. Owen-Jones, S. Pickering, S. Powderhill, S.M. Powell, S. Rees, A. Roberts, J. Rosser, R.W. Smith, G. Stacey, M. Tegg, G.

Thomas, R.K. Turner, M. Webber, D.H. Williams, T. Williams, C.J. Willis a R. Yeo.

"Gyda Diwrnod Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl ar 10 Hydref, mae'r Cyngor yma yn cefnogi ymgyrch 'Working with Compassion' y Samariaid. Amcan yr ymgyrch yw codi ymwybyddiaeth a hyrwyddo trugaredd yn y gweithle.

"Mae'r Cyngor yn nodi'r cysylltiad rhwng cyfraddau hunanladdiadau ac amddifadedd economaidd-gymdeithasol ac wedi penderfynu codi ymwybyddiaeth a gwella dealltwriaeth o'r cymorth sydd ar gael i unigolion sy'n dioddef trallod emosiynol.

"Mae'r Cyngor yma hefyd yn ailbwysleisio ei fod yn cefnogi Ymgyrch Siarad â Fi 2 Llywodraeth Cymru sy'n sicrhau bod y darpariaethau angenrheidiol yn eu lle i atal hunanladdiadau, lle bod hynny'n bosibl."

"Yn rhan o hyn, bydd y Cyngor yn gofyn i'r Pwyllgor Craffu perthnasol (Iechyd a Lles) drafod y dull mwyaf effeithiol o gynnal ymgyrch codi ymwybyddiaeth fewnol a fydd yn hyrwyddo'r cymorth sydd ar gael i weithwyr, a'r dull mwyaf addas o godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ymhlith trigolion y Fwrdeistref Sirol."

16. BUSNES BRYS

Trafod unrhyw faterion sydd, yn ôl doethineb y Maer, yn faterion brys yng ngoleuni amgylchiadau arbennig.

Cyfarwyddwr Materion Cyfathrebu a Phennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau Llywodraethol

At: Pob Aelod o'r Cyngor